Cabinet Office

# Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol (NUAR)

Ymgynghoriad ar ddiwygio deddfwriaethol posibl a model gweithredu arfaethedig NUAR y dyfodol i uchafu'r buddion i economi'r DU

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cychwyn ar 7 Ebrilll 2022

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gorffen ar 2 Mehefin 2022

**Ymgynghoriad a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Geo-ofodol, pwyllgor arbenigol o Swyddfa'r Cabinet.**

**Mae hefyd ar gael yn https://www.gov.uk**

# Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

| | |
|---|---|
| **I:** | Rydym yn annog cynrychiolwyr o’r grwpiau rhanddeiliaid canlynol i ymateb i’r ymgynghoriad hwn:<br><br>● Cwmnïau cyfleustodau<br>● Awdurdodau lleol<br>● Cymdeithasau masnach<br>● Cyrff proffesiynol; a<br>● Sefydliadau eraill sy’n gweithredu yn unrhyw un o’r is-sectorau canlynol:<br>    ○ Telegyfathrebu<br>    ○ Nwy<br>    ○ Gwresogi ardal<br>    ○ Trydan<br>    ○ Dŵr glân<br>    ○ Dŵr gwastraff<br>    ○ Goleuo strydoedd a darparwyr gwasanaeth cynnal asedau priffyrdd<br>    ○ Awdurdodau ac asiantaethau trafnidiaeth<br>    ○ Cwmnïau adeiladu<br>    ○ Asiantaeth yr Amgylchedd<br>    ○ Iechyd a Diogelwch<br>    ○ Rheoli Asedau<br>● Gweinyddiaethau ac awdurdodau datganoledig<br>● Rheoleiddwyr<br>● Cynllunwyr gwytnwch cenedlaethol<br>● Sefydladau eraill a chanddynt fuddiant, academyddion neu’r cyhoedd. |
| **Hyd:** | O 7 Ebrill 2022 i 2 Mehefin 2022 |
| **Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am y papur mewn fformat arall) i:** | Uned Darparu NUAR<br>Y Comisiwn Geo-ofodol<br>10 South Colonnade<br>Canary Wharf<br>E14 4PU<br><br>E-bost: nuar-futuremodel@cabinetoffice.gov.uk |
| **Sut i ymateb:** | Cwblhewch eich ymateb gan ddefnyddio’r ffurflen ar-lein. Mae crynodeb o’r cwestiynau i’w ganfod tuag at ddiwedd y ddogfen hon. |
| **Ymgysylltu ychwanegol â rhanddeiliaid:** | Bydd cyfres o friffiadau a sesiynau Cwestiwn ac Ateb yn cydredeg â’r ymgynghoriad hwn. Bydd gwahoddiadau yn cael eu hanfon allan tra bod yr ymgynghoriad yn fyw. |
| **Ymateb:** | Cyhoeddir ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriad hwn ar GOV.UK |

# Cynnwys


**Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn** 2

**Cynnwys** 3

**Rhagair** 4

**Crynodeb Gweithredol** 5

**Cefndir** 6

Ynghylch y Comisiwn Geo-ofodol 6

Y broblem 6

Ynghylch NUAR 6

Gweithgaredd ar waith eisoes 7

**Adran 1 – Yr achos dros NUAR** 8

1.1 Ymarfer presennol 8

**Adran 2 – Asesu'r angen am ddedfwriaeth** 10

2.1 Potensial am ddeddfwriaeth 10

2.2 Cwmpas y ddeddfwriaeth 10

**Adran 3 - Cyrchu NUAR** 12

3.1 Model gweithredu cynaliadwy 12

**Crynodeb o Gwestiynau** 13

**Manylion cyswllt a sut i ymateb** 15

**Cwynion neu sylwadau** 15

**Copïau ychwanegol** 15

**Cyfrinachedd** 15

**Atodiad A - Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer ymgynghoriadau Swyddfa'r Cabinet** 16

# Rhagair

**Mewn amgylchedd digidol sy'n datblygu'n gyflym, mae data lleoliad yn ased strategol sy'n dod â gwerth aruthrol i'n heconomi, cymdeithas ac amgylchedd. Pob blwyddyn, mae 4 miliwn o dyllau'n cael eu palu (tua 1 bob 7 eiliad) i osod, trwsio, a chynnal y pibau a weirennau a gleddir o dan y ddaear – asedau sy'n hanfodol mewn cadw dŵr i redeg, nwy a thrydan yn llifo a'n llinellau telegyfathrebu wedi'u cysylltu. Mae tua 1 o bob 65 o dyllau a gloddir yn arwain at drawiad damweiniol ar asedau (tua 60,000 y flwyddyn), gan achosi gwerth tua £2.4 biliwn o gost economaidd, gan roi bywydau gweithwyr mewn perygl ac amharu ar ein bywydau o ddydd i ddydd. Bydd y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol (NUAR) yn helpu i wella effeithlonrwydd mewn adeiladu a datblygu, lleihau tarfu (o gau ffyrdd am gyfnodau estynedig a thagfeydd), gwella diogelwch gweithwyr, ac fe'i rhagwelir yn darparu £347m o werth economaidd y flwyddyn.**

Mae'n rhaid i bob prosiect adeiladu a seilwaith gaffael gwybodaeth ar asedau tanddaearol (hynny yw,. ceblau, pibau, carthffosydd a dwythellau) wrth baratoi ymchwiliad daear a gwaith cloddio. Mae'n rhaid cysylltu â nifer arwyddocaol o sefydliadau am wybodaeth ar eu hasedau, ac mae hyn yn cael ei darparu mewn fformatau, graddfeydd, ansawdd amrywiol ac ar linellau amser gwahanol. Gyda'r holl asedau a chwmnïau gwahanol hyn yn cymryd rhan, mae gweithio o dan y ddaear yn gymhleth yn ogystal ag yn cymryd amser.

In 2019, lansiodd y Comisiwn Geo-ofodol ei set gyntaf o weithgareddau â'r diwydiant hwn trwy gynlluniau peilot deuddeng mis, lleol. Wedi'u canolbwyntio yng Ngogledd-Ddwyrain Lloegr a Llundain, anelodd y cynlluniau peilot at gynyddu ein dealltwriaeth o sut y gallai cofrestr genedlaethol weithio yn ymarferol, yn ogystal â gweithio â rhanddeiliaid i brofi sut y gallai'r llwyfan mapio edrych. Dangosodd y cynlluniau peilot hyn effeithiau cadarnhaol byd go iawn y byddai NUAR yn eu cael ar ddiwydiant a chymdeithas yn ehangach, gan wneud gwaith daear yn rhatach,diogelach a chyflymach.

Mae gan y Comisiwn Geo-ofodol fandad i ddarparu newidiadau i ddatgloi pŵer data lleoliad. Gan ddysgu o'r cynlluniau peilot, mae'n amlwg fod gan welliannau mewn rhannu data asedau tanddaearol botensial enfawr i chwyldroi sut mae prosiectau seilwaith yn cael eu cynllunio a'u darparu, gan helpu i wella effeithlonrwydd mewn adeiladu a datblygu, lleihau tarfu a gwella diogelwch gweithwyr. Mae'r gwelliannau a ddarperir hefyd yn debygol o fod â gwerth i fathau newydd o brosiectau seilwaith gan gynnwys cyflwyno band eang ffibr a mannau gwefru ceir trydan, yn ogystal ag achosion defnydd eraill fel cydlynu gwaith strydoedd, ymateb i argyfwng, cynllunio risg llifogydd, cynllunio gwytnwch a chynhyrchu a dosbarthu ynni amgen.

Mae NUAR nid yn unig yn darparu buddion i berchnogion asedau a'r rheini sy'n palu'r strydoedd, ond hefyd yn darparu cyfleoedd i'r farchnad ehangach. Mae darparu'r prosiect hwn yn brif flaenoriaeth i'r Llywodraeth ac rwyf am ddiolch i bawb sy'n cymryd rhan mewn cynorthwyo gwaith y Comisiwn Geo-ofodol hyd yn hyn i ddarparu'r NUAR. I bawb sy'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn, bydd eich ymatebion yn helpu i lywio'r camau nesaf a gymerir yn y prosiect pwysig hwn.

Dr **Steve Unger, Comisiynydd**
**Y Comisiwn Geo-ofodol**

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r Comisiwn Geo-ofodol yn adeiladu gwasanaeth digidol ar gyfer rhannu data ar leoliad pibau a cheblau tanddaearol fydd yn chwyldroi adeiladu a datblygu yn y DU – Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol (NUAR). Bydd NUAR yn darparu map cyson, rhyngweithiol, digidol o ddata asedau wedi'u claddu, yn hygyrch pryd, ble a sut fydd ei angen ar y rheini sy'n cynllunio ac yn gweithredu cloddiadau.

Blaenoriaeth allweddol yw sicrhau bod NUAR yn cael ei ddarparu mewn modd sy'n uchafu'r gwerth i ddefnyddwyr, â model ariannu cynaliadwy. I gyflawni hyn, mae cyfranogaeth lawn gan berchnogion asedau tanddaearol ('perchnogion asedau') yn well, i sicrhau bod gan gynllunwyr a chloddwyr fynediad at ddata sydd mor gyflawn â phosibl.

I berchnogion asedau, bydd y gwasanaeth hwn yn gwella prosesau cyfnewid data presennol gan arwain at effeithlonrwydd arwyddocaol a lleihau'r tebygolrwydd o drawiadau ar asedau. Yn seiliedig ar y cynlluniau peilot a'n gwaith hyd yn hyn, rydym yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o berchnogion asedau yn awyddus i gymryd rhan yn wirfoddol. Rydym yn ystyried pob opsiwn, gan gynnwys deddfwriaeth, i sicrhau'r gyfranogaeth fwyaf yn y llwyfan a sefydlu cartref NUAR i'r dyfodol.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i rannu'n dair adran a bydd yn gofyn cwestiynau drwyddi draw. Mae'r adran gyntaf yn amlinellu'r ymarfer presennol. Mae'r adran ganlynol yn manylu ar ein hasesiad mewn perthynas â deddfwriaeth bosibl a chwmpas y fath ddeddfwriaeth. Mae'r adran olaf yn amlinellu ein meddwl presennol hyd yn hyn ar y mecanwaith cyllido posibl i gynorthwyo'r gwasanaeth parhaus.

Rydym yn ceisio barn cwmnïau cyfleustodau, awdurdodau lleol, rheoleiddwyr, cymdeithasau masnach, cyrff proffesiynol, sefydliadau eraill sy'n gweithredu yn y sector seilwaith, academia a'r cyhoedd yn ehangach i helpu llunio dyfodol NUAR.

# Cefndir

## Ynghylch y Comisiwn Geo-ofodol

Cafodd y Comisiwn Geo-ofodol ei sefydlu yn 2018 gan y llywodraeth fel pwyllgor annibynnol, arbenigol yn gyfrifol am sefydlu strategaeth geo-ofodol y DU a chydlynu gweithgarwch geo-ofodol y sector cyhoeddus. Ein nod yw datgloi'r cyfleoedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol arwyddocaol a gynigir gan ddata lleoliadau a rhoi hwb i arbenigedd geo-ofodol byd eang y DU.

Mae gan y Comisiwn Geo-ofodol fandad a chyllideb i ysgogi a darparu newidiadau trwy weithio mewn partneriaeth ag eraill. Mae hyn yn golygu ein bod yn:

- Darparu arolwg o'r ecosystem geo-ofodol yn y DU, gosod strategaeth, polisi a safonau geo-ofodol.
- Dal y gyllideb ar gyfer buddsoddiad mwyaf y sector cyhoeddus mewn data geo-ofodol.
- Gwneud buddsoddiadau wedi'u targedu mewn prosiectau data sy'n cyflymu arloesi a mabwysiadu cymwysiadau data geo-ofodol.

## Y broblem

Mae cyfran arwyddocaol o’n seilwaith cyfleustodau, adeiladu, a thrafnidiaeth wedi’i gladdu o dan y ddaear, gan gynnwys tua 4 miliwn cilomedr o bibau, ceblau, telegyfathrebiadau a charthffosydd wedi’u claddu[1]. Mae amcangyfrif o 4 miliwn o dyllau’n cael eu palu bob blwyddyn i gyrchu rhwydweithiau cyfleustodau ar gyfer atgyweiriadau, diweddariadau, a gosodiadau[2]. Mae’r amgylchedd prysur ond yn aml anweledig hwn yn dioddef amcangyfrif o 60,000 o drawiadau gan gyfleustodau y flwyddyn, gan arwain at anafiadau, oediadau i brosiectau, a tharfu ar draffig ac economïau lleol. Amcangyfrifir bod trawiadau ar asedau tanddaearol yn costio £2.4bn y flwyddyn mewn costau uniongyrchol ac anuniongyrchol[3]. Er bod data ar asedau tanddaearol ar gael yn rhwydd i grwpiau pendol, mae eu cael yn gofyn am gysylltu â sawl ffynhonnell, a’r data yn cael eu darparu mewn fformatau, graddfeydd gwahanol ac i fframiau amser amrywiol.

## Ynghylch NUAR

Mae NUAR yn rhaglen wedi’i harwain gan y llywodraeth wedi’i hanelu at gyfnewid gwybodaeth yn fwy effeithlon trwy greu llwyfan rhannu data cynhwysfawr, unigol ar leoliad a chyflwr asedau tanddaearol. Bydd yn wasanaeth rhannu data diogel fydd yn darparu golwg digidol safonedig, rhyngweithiol o’r asedau tanddaearol mewn lleoliad penodol. Pwrpas sylfaenol NUAR yw mirienio’r broses rhannu data, lleihau’r risg o drawiadau marwol posibl ar gyfleustodau a hyrwyddo rheoli a chynnal mwy effeithlon o asedau tanddaearol.

Mae buddion disgwyliedig NUAR yn cynnwys tair cydran:

1. Arbedion o lai o drawiadau ar gyfleustodau;
2. Costau gostyngol a gwell effeithlonrwydd rhannu data; a
3. Gwelliannau effeithlonrwydd ar safle ac mewn swyddfa i brosiectau.

---

[1] Future Cities Catapult, 2017; Parker 2008
[2] USAG, 2016
[3] https://www.gov.uk/government/publications/national-underground-asset-register-unlocking-value-for-industry-and-the-wider-economy/national-underground-asset-register-nuar-economic-case-summary

Amcangyfrifir i'r buddion hyn fod tua £347m y flwyddyn mewn termau real.

## Gweithgaredd ar waith eisoes

Gan fod NUAR yn rhaglen dair blynedd fyw, rydym eisoes wedi ymgymryd â rhai camau allweddol i helpu datgloi ei botensial llawn. Ym Medi 2021 fe wnaethom benodi cyflenwr, a dechreuodd gwaith ar gam adeiladu'r gwasanaeth. Mae hyn wedi'i ganolbwyntio ar ddatblygu'r gwasanaeth digidol ac mae'n cael ei adeiladu mewn partneriaeth â diwydiant dros y tair blynedd nesaf. Gan ddechrau yng Ngogledd-Ddwyrain Lloegr, Cymru a Llundain, bydd yn cwblhau â Gogledd Iwerddon a gweddill Lloegr[4] erbyn Hydref 2024. I gynorthwyo hyn, mae cytundebau rhannu data wedi dechrau cael eu llofnodi rhwng perchnogion asedau a'r cyflenwr fydd yn ein caniatáu i'w lwytho ar y llwyfan.

Rydym hefyd yn awr wedi datblygu fframwaith cyfreithiol newydd fydd yn parhau ar gyfer cyhoeddi data, gan amlinellu beth mae data ar NUAR yn gallu cael eu cyrchu ar eu cyfer. Mae hwn yn gam allweddol mewn sicrhau bod NUAR yn gallu cael ei gyflwyno'n genedlaethol.

[4] Mae'r Alban yn elwa eisoes o system o'r math hwn yng Nghofrestr Gweithfeydd Ffyrdd yr Alban. Mae'r Comisiwn Geo-ofodol yn parhau i weithio'n agos â chydweithwyr yn llywodraeth yr Alban ar ddatblygiadau'r dyfodol.

# Adran 1 – Yr achos dros NUAR

## 1.1 Ymarfer presennol

Mae deddfwriaeth bresennol, yn bennaf Y Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd (1991)[5],yn amlinellu'r gofynion mewn perthynas â rhannu data ynglŷn ag asedau tanddaearol. Mae'n rhaid i berchnogion asedau drefnu bod eu data ar gael i gwmnïau neu asiantaethau penodol sy'n ymgymryd â gwaith ynghylch y rhwydwaith priffyrdd (yn cael eu hadnabod fel ymgymerwyr statudol) am ddim. Gall rhai perchnogion asedau hefyd ddarparu data asedau tanddaearol i sefydliadau eraill at ddibenion anstatudol, megis ar gyfer ceisiadau arolygu a throsglwyddo, er nad oes rhwymedigaethau cyfreithiol i rannu'r fath ddata. Gall y gwasanaeth hwn gael ei ddarparu ar gost i'r sawl sy'n gofyn.

Nid oes llwyfan cyflawn ddigidol ar hyn o bryd yn y DU sy'n caniatáu mynediad at yr holl ddata ynghylch asedau tanddaearol mewn un lle. Yn hytrach, mae pob perchennog asedau yn dal yr wybodaeth ynglŷn â'u hasedau ac yn darparu mynediad at hyn yn ôl y gofyn er mwyn cynorthwyo gweithio diogel.

Mae'r broses hon yn cymryd amser i berchnogion y data, sy'n cyflenwi'r data,yn ogystal â'r cynllunwyr prosiect seilwaith, sydd ag angen mynediad at y data. Er mwyn i berchnogion asedau gydymffurfio â deddfwriaeth bresennol, maen nhw'n trefnu bod eu gwybodaeth ar gael trwy sianelau lluosog i ymateb i geisiadau lluosog. I gynllunwyr prosiectau, mae'n rhaid iddynt gysylltu â'r holl berchnogion asedau perthnasol i gadarnhau cyfarpar tanddaearol mewn ardal arbennig, aros am yr wybodaeth hon ac yna ei chrynhoi.

Mae nifer gyfyngedig o ddarparwyr chwilio ar hyn o bryd sy'n cynnig gwasanaeth defnyddiol, trwy reoli ymholiadau ynglŷn ag asedau tanddaearol mewn partneriaeth â neu ar ran perchnogion asedau. Mae'r llwyfannau hyn yn anghyflawn ac nid ydynt yn darparu mynediad at y data mewn fformat safonedig, uniongyrchol a digidol ryngweithiol.

Ar safle, mae'r sefyllfa yn gallu bod yn anniogel gan fod diffyg mynediad at wybodaeth gynhwysfawr a safonedig yn gallu achosi i weithwyr balu trwy geblau a phibau byw â'r perygl o anaf difrifol neu farwolaeth. Ymhellach, mae dod o hyd i seilwaith anhysbys wedi'i gladdu wrth balu neu daro'n ddamweiniol trwy bibell neu gebl yn achosi oediadau diangen i brosiectau.

Gydag amcangyfrif o 60,000 o drawiadau ar asedau y flwyddyn, yn costio amcangyfrif o £2.4bn, yn ogystal â chostau ychwanegol ar gyfer rhannu data a chynllunio prosiect, mae'n dod yn amlwg y gallai gwelliannau arwyddocaol gael eu gwneud i'r broses bresennol.

**C1. Tua faint mae'n ei gostio i'ch sefydliad ddarparu data ar leoliad eich asedau tanddaerol bob mis?**

Rhowch unrhyw fanylion ychwanegol i'ch ateb, gan gynnwys gofynion amser, nifer a math o staff sy'n cymryd rhan, ac unrhyw effeithiau eraill.

**C2: Tua faint o sefydliadau ydych chi'n cysylltu â hwy er mwyn cael mynediad at set ddata gyflawn o seilwaith tanddaearol ar gyfartaledd fesul prosiect?**

Rhowch unrhyw fanylion ychwanegol i'ch ateb gan gynnwys y nifer a math o staff sy'n

[5] Yng Ngogledd Iwerddon mae'r broses yn cael ei llywodraethu gan y Gorchymyn Gweithfeydd Strydoedd (Gogledd Iwerddon) 1995.

cymryd rhan.

**C3. Tua faint (mewn oriau <u>neu</u> ddyddiau) ar gyfartaledd mae'n ei gymryd i dderbyn yr holl ddata ar leoliad y seilwaith tanddaearol sydd eu hangen arnoch gan berchnogion asedau yn dilyn y cais gwreiddiol?**

Rhowch unrhyw fanylion ychwanegol i'ch ateb.

**C4. Ar ôl ei dderbyn, tua faint (mewn oriau <u>neu</u> ddyddiau) mae'n ei gymryd i brosesu'r data o'r ffynonellau amrywiol i fformat defnyddiol safonedig neu becyn gwybodaeth i'w ddefnyddio mewn prosiect?**

Rhowch unrhyw fanylion ychwanegol i'ch ateb, gan gynnwys y dull rydych yn ei ddefnyddio, a'r nifer a math o staff sy'n cymryd rhan.

# Adran 2 – Asesu'r angen am ddedfwriaeth

## 2.1 Potensial am ddeddfwriaeth

Rydym yn ystyried sut orau i sicrhau bod y llwyfan NUAR yn gallu darparu mynediad i'r holl ddata sydd eu hangen arnynt, pan fydd eu hangen arnynt i sefydliadau a gweithwyr yn fwyaf effeithiol, i gyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol ac yn ddiogel. Yn ystod cam presennol y prosiect, mae cytundebau dosbarthu data yn cael eu ceisio gan berchnogion asedau, gan ganiatáu cyhoeddi eu data asedau tanddaearol ar y llwyafan NUAR.

Fel rhan o ystyried opsiynau, rydym hefyd yn archwilio a fyddai pwerau mewn deddfwriaeth yn helpu i warantu cyfranogiad llawn perchnogion asedau, o ystyried nad yw ymgysylltu â'r llwyfan yn orfodol ar hyn o bryd. Byddai cyfranogaeth 100% yn dileu'r risg o berchnogion asedau unigol yn defnyddio NUAR, ond nid yn rhannu eu data eu hunain yn gyfnewid a gafodd ei adnabod fel pryder allweddol gan berchnogion asedau yn ystod y cynlluniau peilot. Gallem hefyd ofyn am ddarpariaethau trwy ddeddfwriaeth i sefydlu cartref tymor hir ar gyfer NUAR.

**C5. Ydych chi'n credu bod cyfranogaeth 100% yn gyflawnadwy <u>heb ddeddfwriaeth</u>?**

**Ydw/Nac ydw**

Rhowch unrhyw fanylion ychwanegol i'ch ateb, gan gynnwys sut rydych chi'n meddwl y gallai cyfranogaeth lawn gael ei chyflawni trwy ddulliau eraill.

## 2.2 Cwmpas y ddeddfwriaeth

Mae'n bwysig ein bod hefyd yn ystyried y pwerau a'r dyletswyddau y byddai eu hangen i ffurfio rhan o unrhyw ddeddfwriaeth sy'n gweithredu NUAR, er mwyn, yn dilyn ystyriaeth o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, ein bod yn gallu gwneud cynigion gwybodus fyddai'n rhoi'r effaith orau i NUAR.

Mae gwersi a ddysgwyd o'r cynlluniau peilot wedi dangos bod mathau cyson o ddata a fformatau yn sicrhau y bydd y gwasanaeth o'r defnydd mwyaf. Fel rhan o'r cam adeiladu presennol, mae model data wedi cael ei ddatblygu, mewn cydweithrediad â diwydiant a chyrff safonau, fydd yn sicrhau bod data a welir ar NUAR mewn fformat safonedig a chyson. I gefnogi hyn, bydd gwasanaeth trawsffurfio data yn cael ei ddarparu, sy'n sicrhau bod data a ddelir gan berchnogion asedau yn gallu cael eu derbyn ar y llwyfan. Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu am ddim yn y cam presennol i isafu'r cost o newidiadau o systemau blaenorol.

Mae model safonol o fudd mawr i ddefnyddwyr yn y pen draw, a fydd yn gallu deall yr asedau tanddaearol yn yr ardal mae ganddynt ddiddordeb ynddi yn gyflym. Bydd hefyd yn cynorthwyo ansawdd data gwell yn y ffynhonnell, trwy adrodd ar gydymffurfio â'r model data o fewn y gwasanaeth NUAR. Bydd nodwedd adborth hefyd yn cael ei ddarparu i sicrhau lle mae anghywirdebau yn dod i'r amlwg, mae perchnogion asedau yn cael gwybod ac yn gallu gweithredu yn briodol.

Dros amser, ein bwriad yw cynnal model data i sicrhau bod data sy'n cael eu derbyn ar y llwyfan NUAR yn aros yn gyson a chydymffurfiol.

**C6. I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylai'r llywodraeth ofyn i'r data a dderbynnir ar y llwyfan fod yn gyson â'r model data?**

**Cytuno’n Gryf/ Cytuno/ Niwtral/ Anghytuno/ Anghytuno’n Gryf**

Rhowch unrhyw fanylion ychwanegol i’ch ateb.

Mae NUAR yn wasanaeth sydd wedi’i gynllunio i fod o fudd i, yn hytrach na chystadlu â’r farchnad. Mae cyfleoedd nid yn unig i’r rheini sy’n cael budd uniongyrchol o NUAR, ond hefyd i’r rheini sy’n gallu ychwanegu gwerth ar ei ben. Mae potensial clir hefyd i’r un data gael eu defnyddio i ddatgloi rhwystrau i brosiectau seilwaith blaenoriaeth uchel eraill megis pwyntiau gwefru cerbydau trydan a chyflwyno band eang ffibr, yn ogystal ag achosion defnydd eraill fel cydlynu gweithfeydd strydoedd, ymateb argyfwng, cynllunio perygl llifogydd, cynllunio gwytnwch a chynhyrchu a dosbarthu ynni amgen. Cyn gynted â bod y llwyfan NUAR yn gweithredu’n effeithiol, gallem ehangu’r achosion defnydd ar gyfer y data a gedwir ar NUAR yn y dyfodol, gydag ymgynghori priodol ymlaen llaw, ac felly’n ehangu’r defnyddwyr yn y pen draw o NUAR, at y fath ddibenion. Er mwyn gwneud hynny,byddai angen i ni adeiladu’r swyddogaeth angenrheidiol i mewn i’r llwyfan ar y cychwyn.

**C7. Ydych chi’n cytuno y gallai fod o fudd i ehangu’r achosion defnydd rhagnodedig ar gyfer NUAR yn y dyfodol?**

**Ydw/Nac ydw**

Rhowch unrhyw fanylion ychwanegol ar eich ymateb gan gynnwys beth y gallai’r rhain fod, yn ogystal â sut y dylai perchnogion asedau gael gwybod am ehangu achosion defnydd.

Mae ystyriaethau niferus ar gyfer ble dylai cartref terfynol NUAR fod ac rydym yn dal yn agored ynghylch beth fyddai’r opsiwn mwyaf priodol. Gall hyn gael ei amlinellu mewn deddfwriaeth, gan ganiatáu sefydlu corff newydd pe byddai ei angen, neu ei gynnwys o fewn cylch gorchwyl a chyfrifoldebau cynyddol sefydliad sy’n bodoli.

**C8. Oes gennych chi unrhyw farn am sut ddylai NUAR gael ei redeg pan fydd yn gweithredu’n llawn gan gynnwys statws a chylch gorchwyl y corff cyfrifol?**

Rhowch unrhyw fanylion ychwanegol ar eich ymateb.

# Adran 3 - Cyrchu NUAR

## 3.1 Model gweithredu cynaliadwy

Cyn gynted â'i fod wedi'i sefydlu, i sicrhau bod y gwasanaeth NUAR yn aros o'r gwerth uchaf ac yn parhau i ddarparu gwasanaeth gwerthfawr, bydd mecanwaith cyllido cynaliadwy yn ofynnol. Rydym ar hyn o bryd yn archwilio nifer o opsiynau i sicrhau bod darpariaeth graidd y gwasanaeth NUAR yn cael ei gyllido mewn dull cynaliadwy. Mae ein meddwl hyd yma yn ystyried:

- Y costau presennol o fodloni dyletswyddau statudol presennol ar gyfer darparu data asedau tanddaearol;
- Pwy yw buddiolwyr NUAR;
- Sut rydym yn sicrhau bod NUAR yn cael ei fabwysiadu mor eang â phosibl;
- Modelau ffïoedd gwahanol a'u manteision unigol;

Mae statud presennol yn gofyn bod rhaid i berchnogion asedau ddarparu eu data am ddim, 'i'w harchwilio' i ymgymerwyr statudol. Mae hyn yn cael ei wneud ar gost i berchnogion yr asedau sy'n gorfod ymateb i'r ceisiadau hyn am wybodaeth. Bydd NUAR yn darparu dull i berchnogion asedau ateb eu rhwymedigaethau yn effeithlon heb fod angen i ymateb i ymholiadau niferus.

I ymgymerwyr statudol, byddai NUAR yn 'siop un galwad' am wybodaeth ynghylch asedau tanddaearol gan olygu na fyddai angen mwyach iddynt gysylltu â gwasanaethau a sefydliadau niferus i gaffael y data. Yn ogystal, byddai'r wybodaeth ar NUAR ynghylch y gwahanol fathau o asedau tanddaearol yn unol â'r model data gan olygu y byddai'r wybodaeth a ddarperir yn gyson o ran fformat.

Byddai'r uchod hefyd yn wir ar gyfer mynediad at NUAR at ddibenion anstatudol. Mae rhai perchnogion asedau yn rhannu eu data â thrydydd partïon eraill am nifer o resymau, weithiau ar gost i'r sawl sy'n ymholi. Pe byddai'r data ar NUAR hefyd ar gael at y fath ddibenion, gallai ffi hefyd gael ei chodi.

Ein bwriad fyddai codi ffi i gynorthwyo rhedeg NUAR yn y dyfodol o ystyried y buddion a ragwelir, ac mae opsiynau lluosog ynglŷn â ble gallai'r ffi hon gael ei chodi.

**C9. I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylai NUAR godi ffi ar;**

a. **Perchnogion asedau**

**Cytuno'n Gryf/ Cytuno/ Niwtral/ Anghytuno/ Anghytuno'n Gryf**

b. **Ymgymerwyr Statudol**

**Cytuno'n Gryf/ Cytuno/ Niwtral/ Anghytuno/ Anghytuno'n Gryf**

c. **Defnyddwyr at ddibenion anstatudol**

**Cytuno'n Gryf/ Cytuno/ Niwtral/ Anghytuno/ Anghytuno'n Gryf**

Rhowch unrhyw fanylion ychwanegol ar eich ymateb.

# Crynodeb o Gwestiynau

**C1. Tua faint mae'n ei gostio i'ch sefydliad ddarparu data ar leoliad eich asedau tanddaerol bob mis?**

Rhowch unrhyw fanylion ychwanegol i'ch ateb, gan gynnwys gofynion amser, nifer a math o staff sy'n cymryd rhan, ac unrhyw effeithiau eraill.

**C2: Tua faint o sefydliadau ydych chi'n cysylltu â hwy er mwyn cael mynediad at set ddata gyflawn o seilwaith tanddaearol ar gyfartaledd fesul prosiect?**

Rhowch unrhyw fanylion ychwanegol i'ch ateb gan gynnwys y nifer a math o staff sy'n cymryd rhan.

**C3. Tua faint (mewn oriau <u>neu</u> ddyddiau) ar gyfartaledd mae'n ei gymryd i dderbyn yr holl ddata ar leoliad y seilwaith tanddaearol sydd eu hangen arnoch gan berchnogion asedau yn dilyn y cais gwreiddiol?**

Rhowch unrhyw fanylion ychwanegol i'ch ateb.

**C4. Ar ôl ei dderbyn, tua faint (mewn oriau <u>neu</u> ddyddiau) mae'n ei gymryd i brosesu'r data o'r ffynonellau amrywiol i fformat defnyddiol safonedig neu becyn gwybodaeth i'w ddefnyddio mewn prosiect?**

Rhowch unrhyw fanylion ychwanegol i'ch ateb, gan gynnwys y dull rydych yn ei ddefnyddio, a'r nifer a math o staff sy'n cymryd rhan.

**C5. Ydych chi'n credu bod cyfranogaeth 100% yn bosibl i'w gyflawni <u>heb ddeddfwriaeth</u>?**

**Ydw/Nac ydw**

Rhowch unrhyw fanylion ychwanegol i'ch ateb, gan gynnwys sut rydych chi'n meddwl y gallai cyfranogaeth lawn gael ei chyflawni trwy ddulliau eraill.

**C6. I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylai'r llywodraeth ofyn bod y data a dderbynnir i'r llwyfan yn gyson â'r model data?**

**Cytuno'n Gryf/ Cytuno/ Niwtral/ Anghytuno/ Anghytuno'n Gryf**

Rhowch unrhyw fanylion ychwanegol i'ch ateb.

**C7. Ydych chi'n cytuno y gallai fod o fudd i ehangu'r achosion defnydd rhagnodedig ar gyfer NUAR yn y dyfodol?**

**Ydw/Nac ydw**

Rhowch unrhyw fanylion ychwanegol ar eich ymateb gan gynnwys beth y gallai'r rhain fod, yn ogystal â sut y dylai perchnogion asedau gael gwybod am ehangu achosion defnydd.

**C8. Oes gennych chi unrhyw farn am sut ddylai NUAR gael ei redeg pan fydd yn gweithredu'n llawn gan gynnwys statws a chylch gorchwyl y corff cyfrifol?**

Rhowch unrhyw fanylion ychwanegol ar eich ymateb.

**C9. I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylai NUAR godi ffi ar;**

a. **Perchnogion asedau**

**Cytuno'n Gryf/ Cytuno/ Niwtral/ Anghytuno/ Anghytuno'n Gryf**

b. **Ymgymerwyr statudol**

**Cytuno'n Gryf/ Cytuno/ Niwtral/ Anghytuno/ Anghytuno'n Gryf**

c. **Defnyddwyr at ddibenion anstatudol**

**Cytuno'n Gryf/ Cytuno/ Niwtral/ Anghytuno/ Anghytuno'n Gryf**

Rhowch unrhyw fanylion ychwanegol ar eich ymateb.

## Manylion cyswllt a sut i ymateb

I gael gwybodaeth am sut rydym yn trin eich data personol pan ydych yn ymateb i’n hymgynghoriad, gweler yr **Hysbysiad Preifatrwydd yn Atodiad A**.

Cwblhewch eich ymateb ar-lein erbyn 2 Mehefin 2022.

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, dylech gysylltu â Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth yn y cyfeiriad uchod nuar-futuremodel@cabinetoffice.gov.uk

## Copïau ychwanegol

Gellir cael rhagor o gopïau papur o'r ymgynghoriad hwn o'r cyfeiriad hwn, ac mae hefyd ar gael ar-lein yn gov.uk.

Gellir gofyn am fersiynau eraill o'r cyhoeddiad hwn o nuar-futuremodel@cabinetoffice.gov.uk.

## Cyfrinachedd

Os ydych am i'r wybodaeth a ddarparwch gael ei thrin yn gyfrinachol, eglurwch i ni pam eich bod yn ystyried bod yr wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch esboniad, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd ym mhob achos. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn gyfrwymol ar Swyddfa'r Cabinet.

# Atodiad A - Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer ymgynghoriadau Swyddfa'r Cabinet

Mae'r hysbysiad hwn yn nodi sut y byddwn yn defnyddio eich data personol, a'ch hawliau. Cyhoeddir yr hysbysiad yn unol ag Erthyglau 13 ac/neu 14 y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

## EICH DATA

**Diben**

Pwrpas prosesu eich data personol yw cael barn aelodau'r cyhoedd, seneddwyr a chynrychiolwyr sefydliadau a chwmnïau am bolisïau adrannol, cynigion, neu yn gyffredinol i gael data ynghylch barn y cyhoedd ar fater sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd.

**Y data**

Byddwn yn prosesu'r data personol dilynol: enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, teitl swydd (lle y'i rhoddir), a chyflogwr (lle y'i rhoddir), yn ogystal â barn.

Byddwn hefyd yn prosesu gwybodaeth fywgraffyddol ychwanegol am ymatebwyr neu drydydd partïon lle caiff ei rhoi'n wirfoddol.

**Sail gyfreithiol prosesu**

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'ch data personol yw ei bod yn angenrheidiol i gyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn y rheolydd data. Yn yr achos hwn, golyga hyn ymgynghori ar bolisïau neu gynigion adrannol, neu gael data barnau, er mwyn datblygu polisïau effeithiol da.

Mae data personol sensitif yn ddata personol sy'n datgelu tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, neu aelodaeth o undeb llafur, a phrosesu data genetig, data biometrig at ddiben adnabod unigolyn naturiol yn unigryw, data sy'n ymwneud ag iechyd neu ddata sy'n ymwneud â bywyd rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol person naturiol.

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'ch data personol sensitif, neu ddata ynghylch euogfarnau troseddol (lle rydych chi'n ei roi'n wirfoddol), yw ei bod yn angenrheidiol am resymau sydd o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd ar gyfer arfer swyddogaeth y Goron, Gweinidog y Goron, neu adran o'r llywodraeth. Y swyddogaeth yw ymgynghori ar bolisïau neu gynigion adrannol, neu gael data barnau, er mwyn datblygu polisïau effeithiol da.

**Derbynwyr**

Pan fydd unigolion yn cyflwyno ymatebion, efallai y byddwn yn cyhoeddi eu hymatebion, ond ni fyddwn yn eu hadnabod yn gyhoeddus. Byddwn yn ymdrechu i dynnu unrhyw wybodaeth a allai arwain at adnabod unigolion.

Gallai ymatebion a gyflwynir gan sefydliadau neu gynrychiolwyr sefydliadau gael eu cyhoeddi'n llawn.

Lle na chyhoeddir gwybodaeth am ymatebion, gellid ei rhannu â swyddogion o fewn cyrff cyhoeddus eraill er mwyn helpu i ddatblygu polisi.

Gan y bydd eich data personol yn cael eu storio ar ein seilwaith TG fe gânt eu rhannu hefyd â'n proseswyr data, SmartSurvey, sy'n darparu gwasanaethau e-bost a storio a rheoli dogfennau.

Efallai y byddwn yn rhannu eich data personol lle mae'r gyfraith yn mynnu ein bod yn gwneud hynny, er enghraifft mewn perthynas â chais a wneir yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

**Cadw**

Yn gyffredinol, cedwir gwybodaeth gyhoeddedig am gyfnod amhenodol ar y sail bod yr wybodaeth o werth hanesyddol. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, data personol am gynrychiolwyr sefydliadau.

Cedwir ymatebion gan unigolion ar ffurf adnabyddadwy am dair blynedd galendr ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

**Lle na chafwyd data personol gennych**

Cafwyd eich data personol gennym drwy ymatebydd i ymgynghoriad.

## EICH HAWLIAU

Mae gennych yr hawl i ofyn am wybodaeth ynghylch sut y caiff eich data personol eu prosesu, ac i ofyn am gopi o'r data personol hynny.

Mae gennych yr hawl i ofyn am gael cywiro unrhyw wallau yn eich data personol yn ddi-oed.

Mae gennych yr hawl i ofyn am gael cwblhau unrhyw ddata personol anghyflawn, gan gynnwys trwy ddatganiad atodol.

Mae gennych yr hawl i ofyn am gael dileu eich data personol os nad oes cyfiawnhad i'w prosesu.

Mae gennych yr hawl o dan rai amgylchiadau (er enghraifft, lle caiff cywirdeb ei herio) i ofyn am gyfyngu ar brosesu eich data personol.

Mae gennych yr hawl i wrthwynebu prosesu eich data personol ble cânt eu prosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol.

Mae gennych yr hawl i wrthwynebu prosesu eich data personol.

## TROSGLWYDDIADAU RHYNGWLADOL

Am fod eich data personol yn cael eu storio ar ein seilwaith TG, a'u rhannu â'n proseswyr data, gellir eu trosglwyddo a'u storio'n ddiogel y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Os felly, bydd yn destun amddiffyniad cyfreithiol cyfatebol trwy ddefnyddio Cymalau Contract Enghreifftiol.

## MANYLION CYSWLLT

Y rheolydd data ar gyfer eich data personol yw Swyddfa'r Cabinet. Manylion cyswllt y rheolydd data yw: Swyddfa’r Cabinet, 70 Whitehall, Llundain, SW1A 2AS, neu 0207 276 1234, neu publiccorrespondence@cabinetoffice.gov.uk.

Y manylion cyswllt ar gyfer Swyddog Diogelu Data'r rheolwr data yw: Swyddog Diogelu Data, Swyddfa'r Cabinet, 70 Whitehall, Llundain, SW1A 2AS, or dpo@cabinetoffice.gov.uk.

Mae'r Swyddog Diogelu Data yn darparu cyngor a monitro annibynnol ynghylch defnydd Swyddfa'r Cabinet o wybodaeth bersonol.

## CWYNION

Os ydych o'r farn bod eich data personol wedi'u camddefnyddio neu eu cam-drin, gallwch gyflwyno cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n rheoleiddiwr annibynnol. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: : Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF, neu 0303 123 1113, neu casework@ico.org.uk. Ni fydd unrhyw gŵyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth yn amharu ar eich hawl i geisio iawn trwy'r llysoedd.